Cwrt Linden
Clos Ilex
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DZ

Ffôn 029 2076 1861
Ffacs 029 2076 3163

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: 23 Mehefin 2006
Teitl: Cymru'n cael yr ateb i Raglen da Vinci

Mae prosiectau yng Nghymru a luniwyd i hybu lleoliadau galwedigaethol ac ymweliadau cyfnewid tramor wedi ennill cyfran sylweddol o'r €14 miliwn sydd ar gael yn Rowndiau 1 a 2 o Raglen Symudedd Leonardo da Vinci 2006.

Mae'r saith prosiect dan sylw, sy'n cynnwys gosod myfyrwyr AU mewn lleoliadau gwaith a threfnu i weithwyr ehangu eu hyfforddiant galwedigaethol mewn gwledydd Ewropeaidd eraill, yn cyfateb i 9% o'r prosiectau a gyllidwyd yn y rownd gyntaf. Ond ar ben hynny, maent hwy wedi denu oddeutu 10% o gyllideb 2006 sydd ar gael ar gyfer prosiectau o'r fath yn y DU ar ôl un rownd yn unig o wneud ceisiadau.

Dau o brosiectau llwyddiannus Rownd 1 yw rhaglen o eiddo Prifysgol Caerdydd sy'n galluogi israddedigion daearyddiaeth forol i ymgymryd â hyfforddiant ymarferol a lleoliadau gwaith yng Ngwlad Groeg a chynllun gan Goleg Gwent i anfon myfyrwyr celf, dylunio a'r cyfryngau i'r Almaen i gael profiad gwaith mewn cwmnïau cyfryngau a chyhoeddi er mwyn dod i ddeall diwydiannau Ewropeaidd yn well.

Yn ogystal, mae Airbus UK wedi dechrau ar brosiect unigryw rhwng busnes mawr ac addysg bellach, sy'n rhoi cyfle i brentisiaid Airbus sydd wedi cael eu hyfforddi yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy ehangu eu hyfforddiant a meithrin eu sgiliau gydag Airbus yn yr Almaen, Ffrainc a Sbaen.

Meddai Roger Carter, Pennaeth Datblygu Economaidd CCAUC:

“Mae cyrsiau sy’n cynnig lleoliadau gwaith dramor yn apelio fwyfwy at ddarpar fyfyrwyr, sydd bob amser yn chwilio am gyfleoedd addysg bellach neu addysg uwch a fydd yn ychwanegu gwerth at eu cymhwyster terfynol ac yn eu paratoi’n well ar gyfer byd gwaith.”

Un corff sydd wedi llwyddo’n gyson i ddenu cyllid Leonardo yw ECTARC yn Llangollen. Wedi’i sefydlu bellach fel Canolfan Rhagoriaeth mewn Rhaglenni Hyfforddi Ewropeaidd yng Nghymru, cyrhaeddodd ECTARC rhestr fer y DU yn ddiweddar wrth gynnig ei phrosiect Symudedd yn 2003 am y Gwobrau Ansawdd mewn Symudedd Ewropeaidd. Nod y prosiect hwn oedd gwella sgiliau gwaith unigol drwy brofiad Ewropeaidd, gan gyfrannu drwy hynny at “Agenda Dysgu” Cymru a’i thwf economaidd a chymdeithasol.

Meddai Sharon Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol ECTARC:

“Roeddem yn falch iawn o fod yn un o’r pum prosiect Symudedd ar restr fer y DU a gynigiwyd ar gyfer y gwobrau pwysig hyn ac a farnwyd gan banel dewis rhyngwladol. Rydym wrth ein bodd bod ein cyflawniadau wedi cael eu cydnabod yn y modd hwn, yn enwedig gan ein bod ni wedi mwynhau gweithio gyda’r rhaglen Leonardo ers i ail ran y prosiect Symudedd ddechrau chwe blynedd yn ôl.”

Mae ECTARC wedi llwyddo eto yn rownd gyntaf Rhaglen Symudedd Leonardo da Vinci 2006, gan sicrhau cyllid i recriwtio 100 o raddedigion diweddar a gweithwyr ifanc o bob rhan o Gymru i ymgymryd â lleoliadau gwaith Ewropeaidd mewn amrywiaeth eang o sectorau.

Mae’r nifer calonogol o geisiadau a’r llwyddiant cynyddol i Gymru yn Rownd 1 o’r Rhaglen yn 2006 yn deillio’n rhannol o’r ffaith bod Asiantaeth Genedlaethol Leonardo da Vinci wedi darparu mwy o gefnogaeth nag erioed o’r blaen, gyda staff y Cyngor Prydeinig yn gweithio’n agos â’r hyrwyddwyr yng Nghymru.

Rhoddwyd ail gyfle i gyrff a sefydliadau yn y DU gynnig am gyllid Leonardo yn 2006. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno prosiectau Rownd 2 oedd 9 Mehefin 2006 a bydd manylion y prosiectau llwyddiannus yn cael eu rhyddhau yn ystod y misoedd nesaf. Hefyd mae’r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi’n ddiweddar y bydd mwy byth o

gyfleoedd i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ac y tu hwnt wneud ceisiadau am gyllid drwy ei raglen Gweithredu Integredig ar gyfer Dysgu Gydol Oes, a fydd yn cynnwys rhaglen Leonardo, yn 2007.

Sefydlwyd uned newydd ym Mrwsel i helpu sefydliadau addysg uwch Cymru i ennill arian o raglenni'r UE. Bydd Addysg Uwch Cymru Brwsel, sydd wedi'i lleoli yng nghanol ardal UE y ddinas, yn gyfrifol am feithrin cysylltiadau nes ag amrywiaeth o randdeiliaid eraill, gan hyrwyddo rhagoriaeth Gymreig wrth anelu at nodau Ewrop eang.

Meddai Paul Harris, Pennaeth Swyddfa, Addysg Uwch Cymru Brwsel:

"Braint fawr yw dechrau menter newydd gyffrous lle mae addysg uwch yng Nghymru wedi dod ynghyd i sefydlu rhyngwyneb cyffredin â'r UE.

"Bydd chwarter y £700,000 blynyddol ar gyfer rhaglen Gweithredu Integredig yr UE ar gyfer Dysgu Gydol Oes yn cael ei wario ar raglen Leonardo hyd 2013. Bydd Addysg Uwch Cymru Brwsel yn awr yn gweithio i gynyddu gallu SAUau Cymru i elwa ar nodweddion newydd y rhaglen yn arbennig, a ddylai gael eu cyflwyno yn 2009."

Diwedd.

Cysylltiadau i'r cyfryngau

CCAUC
Emma Rączka, Rheolwr Cyfathrebiadau - 029 2068 2225.
Dale Hall, Pennaeth Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol - 029 2068 2280.

Prosiectau Symudedd Leonardo yng Nghymru
Neil Williams, Swyddog Rhaglen, Leonardo da Vinci, Y Cyngor Prydeinig - 020 7389 4577.

ECTARC
Sharon Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol, ECTARC - 01978 861514.

Nodiadau i Olygyddion

1. Cefndir - CCAUC

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Fe'i sefydlwyd ym mis Mai 1992 a daeth yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru ar 1 Ebrill 1993.

O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan y Cynulliad i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch a chyrsiau addysg uwch penodedig a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.

O dan Ddeddf Addysg 1994, mae'r Cyngor yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae'r Cyngor yn cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.

2. Colegau Addysg Bellach

Mae CCAUC yn cyllido peth darpariaeth addysg uwch yn uniongyrchol mewn Colegau Addysg Bellach. Mae'r arian a dderbyniant ar gyfer eu darpariaeth AU yn gyfran fach iawn yn unig o incwm y CABau. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r cymorth ariannol ar gyfer y sefydliadau hyn. Am y rheswm hwn, nid yw'r Cyngor erioed wedi ceisio cymedroli'r canlyniad cyllido (drwy ymgodi i CMC (*GDP*)) ar gyfer y sefydliadau hyn yn nhermau eu darpariaeth addysg uwch. Mae hyn yn golygu y gall cyllid blwyddyn-ar-flwyddyn ar gyfer darpariaeth addysg uwch mewn CABau amrywio cryn dipyn gan ddibynnu ar nifer y myfyrwyr a recriwtiant.

3. Rhaglen Leonardo da Vinci

Pwrpas y rhaglen Leonardo da Vinci yw gwella ansawdd systemau ac arferion hyfforddiant galwedigaethol yn Ewrop. Mae'r rhaglen yn cefnogi prosiectau sy'n

datblygu hyfforddiant galwedigaethol cychwynnol a pharhaus mewn cydweithredu Ewropeaidd. Mae ail ran y rhaglen Leonardo da Vinci yn rhedeg o 2000 i 2006. Y gyllideb UE gyfan ar gyfer y rhaglen yw 1,15 biliwn Ewro dros gyfnod o saith mlynedd.

Mae prosiectau Symudedd yn darparu:

a) Lleoliadau i fyfyrwyr a hyfforddeion

- lleoliadau ar gyfer pobl sy'n dilyn hyfforddiant galwedigaethol cychwynnol mewn sefydliadau hyfforddiant galwedigaethol a mentrau mewn gwledydd tramor;
- lleoliadau gwaith mewn gwledydd tramor i fyfyrwyr addysg uwch; a
- lleoliadau gwaith i weithwyr ifanc a phobl sydd wedi ennill cymwysterau'n ddiweddar mewn sefydliadau hyfforddiant galwedigaethol neu fentrau.

b) Ymweliadau cyfnewid i hyfforddwyr

- rhwng mentrau a sefydliadau hyfforddiant galwedigaethol; a
- rhwng mentrau a sefydliadau hyfforddiant galwedigaethol gyda'r nod o feithrin cymwyseddau ieithyddol a diwylliannol.

Prosiectau yng Nghymru a gyllidwyd drwy Rownd 1 Rhaglen Symudedd Leonardo da Vinci 2006 yn y DU:

Prifysgol Caerdydd – Anfon 8 o israddedigion Daearyddiaeth Forol i Wlad Groeg i ymgymryd â lleoliad hyfforddi mewn ymchwil morol cymhwysol yn Nwyrain Môr Aegea. Bydd y prosiect hwn, drwy'r hyfforddiant ymarferol a'r lleoliadau gwaith, yn cyfrannu at asesu bioamrywiaeth mewn cynefinoedd morol pwysig o gwmpas ynysoedd Arki ac Ikaria.

Coleg Menai - Mae 50 o fyfyrwyr sy'n dilyn y fagloriaeth Gymreig yn mynd i Sbaen i gwblhau rhan Lleoliad Gwaith y fagloriaeth (mewn amryw o sectorau) yn ogystal ag ymgymryd â'r modiwl 'Ymchwiliad Unigol' ac astudio'r iaith (Sbaeneg yn yr achos hwn).

ECTARC – Mae Llangollen wedi'i sefydlu ei hun fel Canolfan Rhagoriaeth mewn Rhaglenni Hyfforddi Ewropeaidd yng Nghymru. Ar gyfer prosiect 2006, bydd ECTARC yn recriwtio 100 o raddedigion diweddar a gweithwyr ifanc o bob rhan o

Gymru i ymgymryd â lleoliadau gwaith Ewropeaidd mewn amrywiaeth eang o sectorau. Mae gan ECTARC bartneriaid yn yr Almaen, Gwlad Pwyl, Ffrainc, Sbaen, Estonia, yr Eidal a gwledydd eraill ac mae nifer o raddedigion ac israddedigion o SAUau Cymreig wedi cymryd rhan yn ei rhaglenni dros y blynyddoedd.

Coleg Gwent – Aeth 15 o fyfyrwyr AB yn adran Celf, Dylunio a Chelfyddydau Coleg Gwent i'r Almaen i gwblhau'n llwyddiannus dair wythnos o brofiad gwaith mewn sefydliadau cyfryngau a chyhoeddi, gan astudio fframwaith system ddeuol Munich. Bwriad y prosiect yw helpu'r genhedlaeth nesaf i wybod a deall mwy am ddiwydiannau Ewropeaidd tra'n annog pobl ifanc i fanteisio ar hyfforddiant galwedigaethol a gwella ansawdd yr hyfforddiant a ddarperir.

Hyfforddiant Aigles Training (Y Barri, Caerdydd) - Y bwriad yw recriwtio 80 o weithwyr ifanc a graddedigion diweddar o Dde Cymru'n bennaf i gwblhau lleoliadau gwaith tri mis o hyd mewn amryw o sectorau er mwyn gwella profiad gwaith, meithrin sgiliau a hybu symudedd Ewropeaidd. Mae ganddynt bartneriaid mewn nifer o wledydd a buont yn hybu prosiectau symudedd ers sawl blwyddyn.

Coleg Glannau Dyfrdwy – Mae'r Coleg yn hyrwyddo prosiect Cyfnewid Hyfforddwyr gyda'r Iseldiroedd. Prosiect i hwyluso a chyfnewid arfer da ar hyfforddiant galwedigaethol yn y diwydiant Adwerthu rhwng y DU a'r Iseldiroedd yw hwn. Bydd 15 o hyfforddwyr proffesiynol a rheolwyr adnoddau dynol yn ymgymryd ag ymweliad cyfnewid wythnos o hyd a fydd yn cynnwys: cysgodi swyddi, ymweliadau â chwmnïau, cyfnewid deunyddiau, a thrafodaethau ar fylchau mewn darpariaeth a'r posibilrwydd o ddatblygu cymwysterau Ewropeaidd ym maes adwerthu. Bydd y bobl dan sylw yn rheolwyr Adnoddau Dynol a Hyfforddi a hyfforddwyr proffesiynol ym maes adwerthu.

Airbus UK – Prosiect unigryw yw hwn rhwng busnes mawr ac addysg bellach. Hyfforddir prentisiaid Airbus yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy ac mae'r ddau gorff yn cydweithio ar y prosiect Leonardo hwn i anfon 30 o'u prentisiaid i Airbus yn yr Almaen, Ffrainc a Sbaen. Daw'r holl brentisiaid o'r sector gweithgynhyrchu awyrennau a byddant yn hyfforddeion crefft a pheirianneg. Bydd y prosiect hwn yn rhagbrofi cynllun i ganiatáu i'r hyfforddeion o Airbus UK feithrin eu sgiliau ac ehangu eu hyfforddiant drwy weithio am 2-3 mis mewn cyfleuster Airbus mewn aelod wladwriaeth arall a chwblhau'n llwyddiannus weithgareddau a fydd yn ffurfio rhan o'u prentisiaeth. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau galwedigaethol (h.y. NVQ lefel

3/4) a/neu Sgiliau Allweddol (h.y. Gwella eich dysgu eich hun, Datrys problemau a Gweithio mewn tîm).